Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Arfarnu'r Prif Weithredwr

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 23 Ebrill 2024 am 3.00 pm**

**Yn Bresennol**:

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| E W Fitzgerald | L S Gibbard | C A Holley |
| L R Jones | P N May | R C Stewart |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Rachael Davies | Head of HR & Service Centre |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |

**1 Ethol Cadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2023-2024.**

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd R C Stewart yn Gadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig.

**Bu'r Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) yn llywyddu**

**2 Ethol Is-gadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2023-2024.**

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd A S Lewis yn Is-gadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig.

**3 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**4 Cofnodion:**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor Arfarnu a Chydnabyddiaeth Ariannol y Prif Weithredwr a gynhaliwyd ar 17 Ebrill 2023 fel cofnod cywir.

**5 Gwahardd y cyhoedd.**

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem fusnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei fod yn debygol o

ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraffau gwahardd 12 ac 13 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas â'r eitem fusnes fel a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 6 Adolygiad Blynyddol o Berfformiad y Prif Weithredwr.

Cynhaliodd y Pwyllgor arfarniad perfformiad o'r Prif Weithredwr.

**Penderfynwyd** y dylid:

1) Cymeradwyo'r argymhellion fel a amlinellwyd yn yr adroddiad.

2) Rhoi awdurdod i'r Prif Weithredwr rannu ei amcanion y cytunwyd arnynt mor eang ag y mae'n dymuno.

3) Y bydd y Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Ganolfan Wasanaethau yn amlinellu adroddiad cynigion sy'n ystyried trafod elfennau o Bwyllgor Arfarnu a Chydnabyddiaeth Ariannol y Prif Weithredwr mewn sesiwn agored. Caiff yr adroddiad ei ystyried gan Weithgor y Cyfansoddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.17 pm

**Cadeirydd**